

Safonau'r Gymraeg



Beth yw Safonau'r Gymraeg?

Rhestr o ofynion statudol sy'n egluro sut y mae disgwyl i Brifysgol Aberystwyth ddarparu gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth yw pwrpas Safonau'r Gymraeg?

Sicrhau cysondeb a gwella gwasanaethau Cymraeg.

Cynnig eglurder i bawb o ran beth i'w ddisgwyl gan sefydliadau,

Cynnig eglurder i sefydliadau ynghylch eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.

Pwy sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg?

Mae dros 120 o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru (e.e. Cyngorau Sir, Prifysgolion, Byrddau Iechyd) yn gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Oes gan y Brifysgol wasanaeth cyfieithu?

Oes - mae gan y Brifysgol dîm cyfieithu Cymraeg/Saesneg sy'n gyfrifol am gyfieithu pob math o geisiadau i staff ac adrannau'r Brifysgol.

cyfieithu@aber.ac.uk

Ydy'r Safonau yn berthnasol i bob un o weithgareddau'r Brifysgol?

Mae'r Safonau yn berthnasol i'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol - rhestrir y rhain isod.

a) derbyn a dethol myfyrwyr; b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff; c) lles myfyrwyr; ch) cwynion; d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr; dd) gwasanaeth gyrfaedd; e) mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu; f) seremonïau graddio a gwobrwyo; ff) asesu neu arholi myfyriwr; g) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol; ng) darlithoedd cyhoeddus; h) cyfleoedd dysgu; i) dyrannu tiwtor personol; j) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd


a chanolfannau celfyddydau; l) galwadau i brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell cymorth, rhifau canolfan alwadau a systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio; ll) arwyddion ar adeiladau'r corff.

(Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif.6) 2017 - Rhan 3 Dehongli'r Safonau, paragraff 31, t. 43-44)

Nid yw'r Safonau yn berthnasol i gynnwys cynlluniau academaidd, i waith ymchwil nac i weithgareddau tu allan i Gymru. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg am fwy o wybodaeth.

Ydy'r Safonau yn berthnasol i mi?

Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob aelod o staff ac i drydydd partion sydd yn cael eu contractio i ddarparu gwasanaethau ar ran y Brifysgol.



Oes yna ganllawiau pellach i staff?

Oes - ceir nifer o ganllawiau ar **wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg** ynghyd â rhestr gyflawn o holl ofynion y Safonau.

Oes yna wybodaeth ar gael ynglŷn â'r Iaith Gymraeg yn fwy cyffredinol ar gyfer myfyrwyr newydd?

Oes, ceir gwybodaeth ar y dudalen hon <https://www.aber.ac.uk/cy/new-students/welsh-language/>

Oes yna hyfforddiant ar gael i staff ynglŷn â gofynion y Safonau?

Oes - mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cynnig sesiynau rheolaidd i staff ar ofynion y Safonau. Ceir dyddiadau a manylion cofrestru ar <https://stafftraining.aber.ac.uk/>



Crynodeb o ofynion y Safonau

Pwrpas y rhestr ganlynol yw crynhoi prif ofynion y Safonau cyflenwi gwasanaeth mewn ffordd glir a syml i staff. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a dylid gwirio'r **canllawiau unigol** ynghyd â **rhestr lawn y Safonau**. Gweler y **Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg** ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gohebiaeth fewnol (staff).

Gohebiaeth

Rhaid ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

Rhaid anfon gohebiaeth yn Gymraeg/ ddwyieithog wrth ohebu gyda grŵp o bobl.


Rhaid anfon gohebiaeth yn ddwyieithog lle nad oes cofnod o ddewis iaith y derbynnydd.

Rhaid trin gohebiaeth yn y ddwy iaith yn gyfartal e.e. eu hanfon yr un pryd ac yn yr un fformat.

Gwasanaeth Ffôn

Dylid cyfarch yn ddwyieithog (e.e. Bore Da / Good Morning) wrth ateb y ffôn.

Ar gyfer prif rifau ffôn a rhifau llinellau cymorth dylid hysbysu'r person sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael (e.e. Os hoffech siarad gyda ni yn Saesneg, pwyswch 1, neu pwyswch 2 os am wasanaeth cyfrwng Cymraeg).



Cyfarfodydd

Cyfarfod yn gwahodd un person (Myfyriwr / Cyhoedd)

Dylai pob gwahoddiad ofyn am ddewis iaith (Cymraeg/Saesneg). Os yw'r person yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, dylid cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd drwy Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

cyfieithu@aber.ac.uk

Cyfarfod yn gwahodd mwy nag un person (Myfyriwr / Cyhoedd)

Fel yr uchod. Os yw'r cyfarfod yn ymwneud â chwyn, materion disgyblu neu gymorth myfyrwyr, dylid cynnal y cyfarfod yn unol â dewis iaith y rhai sy'n bresennol.

Cyfarfodydd Cyhoeddus (Cyhoedd / Carfan benodol o fyfyrwyr)

Dylai gwahoddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ddatgan bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Dylid holi beth yw dewis iaith (Cymraeg /Saesneg) siaradwyr gwadd. Dylid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus.

Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol i gyfarfodydd sy'n ymwneud â chynnwys y ddarpariaeth academaidd neu waith ymchwil.



Digwyddiadau

Pan fyddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus (neu'n ariannu o leiaf 50% o'r digwyddiad) rhaid sicrhau bod y canlynol yn ddwyieithog:

- deunydd hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad,
- unrhyw arwyddion yn y digwyddiad,
- unrhyw gyhoeddiadau sain a wneir yn y digwyddiad (heblaw am gyhoeddiad mewn argyfwng neu ymarfer brys),
- unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos yn gyhoeddus yn y digwyddiad.

Darlithoedd Cyhoeddus

Pan fyddwch yn trefnu darlith gyhoeddus, dylid:

- ystyried pwnc y ddarlith
- ystyried pa fath o gynulleidfa sy'n debygol o fod yn bresennol

Os ydych o'r farn y bydd y ddarlith yn denu siaradwyr Cymraeg, dylech drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg wrth holi cwestiynau yn ystod neu ar ddiwedd y ddarlith. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i drafod.



Seremonïau Graddio a Gwobrwyo

Os byddwch yn trefnu seremoni raddio neu wobrwyo rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y deunydd neu'r arwyddion a arddangosir gennych yn y lleoliad ac o ran unrhyw wybodaeth a ddarperir am drefn digwyddiadau yn y seremoni.

Os byddwch yn gwahodd rhywun i siarad mewn seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi ofyn iddynt a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y seremoni gan ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithiad ysgrifenedig yn Saesneg os oes angen.

Dogfennau a Ffurflenni

Rhaid i unrhyw ddogfennau a ffurflenni at ddefnydd y cyhoedd neu ar gyfer myfyrwyr fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ni ddylid trin y ddogfen Gymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg.

Dylai unrhyw ddogfennau a ffurflenni ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg nodi'n glir bod y ddogfen ar gael yn Gymraeg: ("This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg")

Gwefannau

Rhaid sicrhau bod yr holl destun ar dudalennau'r Brifysgol ar gael yn y Gymraeg.

Rhaid sicrhau bod gan bob tudalen ddolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg/Saesneg gyfatebol.

Cofiwch sicrhau fod unrhyw ddolenni ar y tudalennau Cymraeg yn cyfeirio at y fersiwn Gymraeg o'r dudalen / cynnwys (nid yw hyn yn berthnasol i ddeunydd allanol lle nad oes fersiwn Gymraeg).

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Dylai cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Brifysgol/Adrannau/Gwasanaethau fod yn ddwyieithog, neu â chyfrif Cymraeg a chyfrif Saesneg ar wahân.

Rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o safbwynt cyfrifon cyfryngau Cymdeithasol y Brifysgol.

Rhaid sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn cael ei ddiweddarau ar yr un pryd â'r cynnwys Saesneg.

Dylai pob neges (ac eithrio atebion) fod yn ddwyieithog.

Wrth ateb neges Gymraeg, ymatebwch yn Gymraeg.

Os oes gennych gyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, cofiwch hysbysebu hyn ar eich cyfrifon yn rheolaidd.

Arwyddion a Hysbysiadau

Dylai pob arwydd a hysbysiad fod yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos gyntaf.

Os bydd angen creu arwyddion/hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân, dylid sicrhau eu bod yn cael eu harddangos ochr yn ochr gyda'r arwydd Cymraeg yn cael ei osod gyntaf (uchaf / i'r chwith).

Dylid sicrhau bod testun arwyddion a hysbysiadau yn y Gymraeg yn gywir ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai Saesneg.

Cyhoeddiadau Sain

Wrth gyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus rhaid i'r cyhoeddiad fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf (nid yw hyn yn angenrheidiol mewn argyfwng).



Gwasanaeth Derbynfa

Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa fod ar gael yn Gymraeg.

Rhaid peidio â thrin person sy'n derbyn gwasanaeth derbynfa yn y Gymraeg yn llai ffafriol na pherson sy'n cael yr un gwasanaeth yn Saesneg.

Rhaid i'r dderbynfa gael arwydd sy'n dangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael a dylai staff y dderbynfa sy'n medru siarad Cymraeg wisgo cortyn gwddf neu fathodyn i ddangos hyn (ar gael o Brif dderbynfa Hugh Owen neu o Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

Peiriannau Hunanwasanaeth

Rhaid i bob peiriant hunanwasanaeth (heblaw'r rhai a weithredir gan gwmni allanol) a ddefnyddir gan y cyhoedd neu fyfyrwyr fod yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a'r Saesneg.



Cyfleoedd Dysgu

Dylai cyfleoedd dysgu sy'n agored i'r cyhoedd gael eu cynnig yn Gymraeg.

Os ydych yn cynnal cyfleoedd dysgu neu ddigwyddiad yn Saesneg, yna dylid trefnu gweithgaredd cyfatebol yn y Gymraeg.

Nid yw'r Safon hwn yn berthnasol i gynlluniau gradd y Brifysgol na chyrsgiau Dysgu Gydol Oes.

Penderfyniadau Polisi

Rhaid cwblhau **Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg** ar gyfer pob penderfyniad Polisi (polisi newydd / neu adolygu polisi sy'n bodoli eisoes).

Wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori neu gomisiynu ymchwil sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i chi geisio barn am yr effaith (yn gadarnhaol neu yn negyddol) y byddai'r penderfyniad yn ei gael o ran – (a) cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Grantiau

Rhaid i bob dogfen sy'n ymwneud â chais am grant neu gymorth ariannol fod yn ddwyieithog.

Wrth wahodd ceisiadau rhaid datgan bod croeso iddynt wneud hynny yn y Gymraeg.

Ni ddylid trin ceisiadau yn y Gymraeg yn llai ffafriol, ac os bydd angen cynnal cyfweiliad, dylid ei gynnal yn Gymraeg neu yn ddwyieithog (gellir trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen).

Tendro

Os yw'r maes tendro dan sylw wedi ei restru **yma** cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

Dylai gwahoddiad i dendro fod yn y Gymraeg / yn ddwyieithog, a rhaid datgan bod croeso i'r cais fod yn Gymraeg ac na fydd cais yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais wedi ei gyflwyno yn y Saesneg.

Ar gyfer pob cynllun grant neu gymorth ariannol gan y Brifysgol, rhaid **cynnal asesiad ardrawiad effaith** ar y Gymraeg. Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg am wybodaeth bellach.

Os bydd angen cynnal cyfweiliad gyda thendrwr sydd wedi cyflwyno cais yn y Gymraeg, rhaid i chi gynnal y cyfweiliad yn y Gymraeg neu gynnig trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. (nid yw'n berthnasol ar gyfer gwahoddiadau i dendro yn yr OJEU [Rheoliadau Caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeidd]).

Rhai O Ofynion Eraill Y Safonau

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno asesiadau/gwblhau arholiadau yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg (ac eithrio lle asesir yr iaith).

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud cais am lety cyfrwng Cymraeg.

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.

Rhaid i'r Brifysgol hyrwyddo ei gwasanaethau Cymraeg.

Rhaid i'r Brifysgol ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth (a) gyflwyno/diwygio polisi (b) wrth ddatblygu neu addasu cwrs academaidd (c) ddyrannu grantiau gan y Brifysgol.

Rhaid i'r Brifysgol asesu **gofynion ieithyddol** pob swydd cyn ei hysbysebu.

Mae gan staff hefyd hawliau i dderbyn gwasanaethau/gwybodaeth yn Gymraeg yn y gweithle - Gweler y **Safonau Gweithredu (105-162)**.

Polisiâu ac Adnoddau Eraill y Brifysgol

- 1 **Polisi'r Brifysgol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.**
- 2 **Addewidion Aber** - Addewid a blaenoriaethau'r Brifysgol ar gyfer ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a'n hymrwymiad i hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.
- 3 **Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant.**
- 4 **Cwestiynau Cyffredin - Safonau'r Gymraeg.**
- 5 **Canllawiau Staff - Safonau'r Gymraeg.**
- 6 **Cyfeithu a Chefnogi.**
- 7 **Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Cangen Prifysgol Aberystwyth).**
- 8 **Templed Llofnod E-bost Dwyieithog.**

Am Ddysgu Neu Wella Eich Cymraeg?

Mae'r tîm Dysgu Cymraeg yn cynnig cyrsiau amrywiol i ddysgwyr i gwblhau 120 awr ar bob lefel.

Mae'r Brifysgol yn cefnogi staff i ddilyn cyrsiau yn ystod oriau gwaith neu fin nos, drwy ddsbarthiadau rhithiol, wyneb yn wyneb neu gwr cyfunol. Caiff myfyrwyr hefyd fynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg ac o dan gynllun Llywodraeth Cymru caiff unrhywun o dan 25 fynychu'r cyrsiau am ddim.

Bydd y Brifysgol yn talu ffioedd staff sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg a drefnir gan Dysgu Cymraeg, a chefnogir staff i fynychu cyrsiau.

Ceir manylion llawn y rhaglen ar Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr.

Os am sgwrs am gyrsiau Cymraeg neu fanylion pellach cysylltwch â canolfangymraeg@aber.ac.uk

